

Anna Eavis



Role

Ymddiriedolwr a Chadeirydd Panel CGDG

Mae Anna yn weithiwr treftadaeth proffesiynol profiadol.

Hi yw Prif Weithredwr Oxford Preservation Trust, elusen leol annibynnol sy'n ymroddedig i gadwraeth a gwelliant cynaliadwy adeiladau a mannau gwyrdd hanesyddol Rhydychen ac i werthfawrogiad a mwynhad y cyhoedd o hanes y ddinas.

Cyn hynny bu Anna'n gweithio i Gomisiwn Brenhinol Henebion Lloegr ac English Heritage. Rhwng 2012 a 2023 hi oedd Cyfarwyddwr Curadurol English Heritage, gyda chyfrifoldeb am stiwardiaeth a chyflwyno dros 400 o safleoedd hanesyddol, eu casgliadau a'u tirweddau. Bu iddi arwain rhaglenni dysgu, ymgysylltu ieuencid a chreadigol English Heritage a rheoli cynllun Placiau Glas Llundain.

Mae Anna yn ymddiriedolwr Sefydliad Castell Leeds a'r Corpus Vitrearum, prosiect a ariennir gan yr Academi Brydeinig y mai ei genhadaeth yw ymchwilio a chyhoeddi gwydr lliw hanesyddol ym Mhrydain. Mae hi'n aelod o bwyllgorau ymgynghorol ffabrig eglwysi cadeiriol Caergaint a Chaersallog. Roedd hi gynt yn un o ymddiriedolwyr yr Amgueddfa Gwydr Lliw.